# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Wendy Lewis | **Adran Etholiadol:** | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi ymdrin â materion ynghylch gwaith achos bob dydd, gan gysylltu â swyddogion y cyngor sy'n gefnogol iawn. Rwyf bob amser yn adrodd yn ôl i etholwyr, beth bynnag yw'r canlyniad.
Roeddwn i'n bresennol mewn 2 gymhorthfa bob mis ac es i i gyfarfodydd PACT bob tri mis.
Fel llywodraethwr ALI yn Ysgol Gynradd y Login Fach ac Ysgol Gynradd Waunarlwydd, roeddwn i'n bresennol yn yr holl gyfarfodydd, digwyddiadau ysgolion a chyngherddau ac roeddwn i'n gweithredu fel rhwydwaith cefnogi i'r ysgolion gyda'r awdurdod.
Rwyf wedi bod mewn cyswllt agos â sefydliad ROOTS, Tŷ Cymunedol Tŷ Fforest a'r Fferm Gymunedol, gan gynorthwyo unrhyw ffordd rwy'n gallu.
Roeddwn i'n bresennol mewn digwyddiadau Dydd y Cofio a'r holl weithgareddau a drefnwyd gan y cyngor.
Rwyf wedi cysylltu â'r heddlu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cyffuriau yn y ward.
Rwyf wedi cysylltu â swyddogion yn y ward ynghylch problemau diogelwch ffyrdd.
Roeddwn i'n bresennol mewn cymorthfeydd gyda'r heddlu a swyddogion tai.
Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, rwyf wedi llwyddo i drefnu gwelliannau ffyrdd yn Waunarlwydd sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd.
Trefnais bod wal gynnal yn cael ei hadeiladu yn y Cocyd, a oedd wedi bod yn broblem barhaus ers sawl blwyddyn.
Hefyd, trefnais i flodau gwyllt a blychau llawn blodau gael eu plannu ledled y ward.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Rwy'n gwasanaethu fel Hyrwyddwr Cynghorwyr dros Gefnogi a Datblygu Cynghorwyr.

Fel Dirprwy Chwip, rwyf wedi cefnogi cynghorwyr Llafur unigol i'w helpu i barhau â'u rolau fel cynghorwyr.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Sefydlais i Bwyllgor Cyfeillion Parc Waunarlwydd, ar y cyd â chydweithiwr, ac rwy'n gadeirydd arno.
Trefnais i gymorthfeydd mewn llety lloches lleol i helpu'r preswylwyr hŷn gyda'u problemau nhw.
Trefnais i gyfarfod rhwng yr heddlu, yr Is-adran Tai a fy hun i ymdrin â phroblemau mawr gyda chyffuriau mewn rhan o'r ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae fy swydd flaenorol, lle roeddwn yn gweithio mewn swyddfa bost leol, wedi fy helpu i ryngweithio â phreswylwyr a gallu ymdrin â materion sensitif yn ystod fy rôl fel cynghorydd.
Cefnogais i Dŷ Cymunedol Tŷ Fforest gyda'i weithgareddau i'w helpu i gefnogi pobl ddiamddiffyn yn y ward. Trefnais i ffyrdd gael eu cau ar gyfer eu Diwrnod Hwyl a threfnais hefyd i'r gwasanaeth tân fod yn bresennol. Roeddwn i hefyd yn bresennol yn y digwyddiad hwn.
Helpais i'r Fferm Gymunedol i ddod o hyd i 2 ŵydd Aberhonddu er mwyn iddynt allu magu a dod â refeniw mawr ei angen i'r fferm.
Fel rhan o fy rôl fel Hyrwyddwr Cynghorwyr, trefnais i gynghorwyr helpu a chymryd rhan yn y digwyddiad Gyda'n Gilydd dros y Nadolig ar gyfer pobl ddigartref a diamddiffyn yn Abertawe.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | ??/??/2018 (Add date Online Form submitted) |